

JAPANESE KNOTWEED

Fallopia Japonica

NATIVE RANGE

Japan and South East Asia.

CURRENT HABITAT

Widespread throughout the region particularly on riverbanks, roadside verges and wasteland.

SPECIES DESCRIPTION

First introduced to the UK in the early nineteenth century and has been growing wild in Wales for a little over 120 years. It is a tall vigorous herbaceous perennial that can reach 3m in height. It has tall bamboo like stems that are red/green in colour and green shield shaped leaves.



The root system of Japanese Knotweed is an extensive system of rhizomes that can extend in excess of 7m laterally and to a depth greater than 2m.

There is no evidence of Japanese Knotweed reproducing from seed in the UK all new growth is from stem or rhizome section cuttings. The rhizome of the plant is highly regenerative with as little as 0.5g sufficient to support new growth.

IDENTIFICATION FEATURES

STEMS

Can be 2-3m in length, hollow jointed, green/purple/red in colour with regular nodes similar to bamboo. Dried stems are often visible from previous years growth particularly evident in winter months. New growth appears in early spring with a period of vigorous growth seeing full height reached by late May.



LEAVES

Leaves are green in colour and borne in an alternate zig zag pattern on reddish stems. These have a flattened base and pointed tip and can be up to 120mm in length.

FLOWERS

The plant will flower in late July/August through till October, these are creamy white flowers that form in drooping clusters.



RHIZOME

Japanese Knotweed has an extensive network of rhizomes these may extend to a depth of 3m and laterally up to 7m. They are thick and knotted or gnarled in appearance with regular nodes, if broken the centre is bright orange with a distinctive core like appearance.

A GUIDE TO IDENTIFYING, LOCATING AND CONTROLLING JAPANESE KNOTWEED

Knotweed invasion!

CONTROLS

The aim of all forms of control is to prevent spread and ultimately eradicate Japanese Knotweed.

MECHANICAL CONTROL

Mechanical control of Japanese Knotweed will involve large-scale excavations to remove all rhizome material in its entirety, this must then be disposed of appropriately or left in situ for appropriate treatment.

Cutting or pulling can be very time consuming and may take in excess of ten years for control to be achieved, consideration must also be given to disposing of arisings to prevent reinfestation.

All waste from Japanese Knotweed including plant and root material must be disposed of as special or controlled waste under the Environmental Protection Act 1990 and the Environmental Protection Act Duty of Care Regulations 1991.

Further detailed advice can be found in *The Japanese Knotweed code of Practice* produced by the Environment Agency.

CHEMICAL CONTROL

Herbicide treatment will generally take at least three seasons to be effective. Glyphosate applied to the plant between flowering and senescence (yellowing) will provide best results and may reduce the infestation by 90% after one application.

It is important to note that following herbicide application Japanese Knotweed rhizome can remain dormant and any activity that breaks the surface of the soil may promote new growth.

If herbicides are to be used on or near a watercourse prior approval will need to be sought from the Environment Agency.

LEGISLATION

It is an offence under the Wildlife and Countryside Act 1981 to plant or cause to grow wild any plant listed in schedule nine part two of the act. Japanese Knotweed is on this list.

CONTACT

Caerphilly County Borough Council
Tel: 01495 272670 / 07766824603
www.caerphilly.gov.uk

Blaenau Gwent County Borough Council
Tel: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

Merthyr Tydfil County Borough Council
Tel: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

Rhondda Cynon Taff County Borough Council
Tel: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

Torfaen County Borough Council
Tel: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk



LLYSIAU'R DIAL

Fallopia Japonica

CYNEFIN BRODOROL

Japan a De Ddwyrain Asia.

CYNEFIN PRESENNOL

I'w gael yn eang drwy'r rhanbarth, yn enwedig ar lannau afonydd, ar ymylon ffyrdd ac ar dir gwastraff.

DISGRIFIAD O'R RHYWOGAETH

Fe'i cyflwynwyd i'r DU ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae wedi bod yn tyfu'n wyllt yng Nghymru am ychydig dros 120 o flynyddoedd. Planhigyn parhaol tal ac egniol ydyw a all dyfu i hyd at 3m o uchder. Mae ganddo goesynnau hir tebyg i fambŵ o liw coch/gwyrdd a dail gwyrdd siâp tarian.



Mae system wreiddiau Llysiau'r Dial yn system eang o risomau a all ymestyn hyd at fwy na saith metr i'r ochr a hyd at ddyfnder o fwy na dau fetr.

Ni cheir unrhyw dystiolaeth bod Llysiau'r Dial yn defnyddio hadau i atgynhyrchu. Bydd pob tyfiant newydd yn y DU yn tarddu o doriadau o goesynnau neu risomau. Mae rhisom y planhigyn yn hynod atgynhyrchiol ac mae cyn lleied â 0.5g yn ddigon i gynnal twf newydd.

NODWEDDION ADNABOD

COESYNNAU

Gall fod yn 2-3m o hyd, gyda chymalau gweigion, yn wyrdd/piws/coch, gyda chygnau rheolaidd tebyg i fambŵ. Bydd coesynnau wedi sychu'n aml yn weladwy o dwf blynyddoedd cynt, a byddant yn arbennig o amlwg ym misoedd y gaeaf. Bydd twf newydd yn ymddangos yn gynnar yn y gwanwyn, yna ceir cyfnod o dyfu'n egniol, gan gyrraedd yr uchder llawn yn hwyr ym mis Mai.



DAIL

Mae'r dail yn wyrdd ac yn ymddangos am yn ail mewn patrwm igam ogam ar goesynnau cochion. Mae i'r rhain sylfaen wastad a blaen pigfain, a gallant fod hyd at 120mm o hyd.

BLODAU

Bydd y planhigyn yn blodeuo yn hwyr ym mis Gorffennaf/Awst a hyd at fis Hydref. Lliw gwyn hufennog yw'r blodau sy'n ffurfio clystyrau pendrwm.



RHISOMAU

Mae gan Llysiau'r Dial rwydwaith eang o risomau a gall y rhain ymestyn i ddyfnder o 3m a hyd at 7m i'r ochr. Maent yn drwchus ac yn ymddangos yn glymog neu'n gnotiog gyda chygnau rheolaidd. Os cânt eu torri mae'r canol yn oren llachar ac yn edrych fel craidd.



ARWEINIAD I
ADNABOD,
CANFOD
A
RHEOLI
LLYSIAU'R
DIAL

Ymosodiad Llysiau'r Dial!!!

RHEOLAETH

Nod pob dull rheoli yw atal ymlediad ac, yn y pen draw, cael gwared â Llysiau'r Dial.

RHEOLAETH FECANYDDOL

Er mwyn rheoli Llysiau'r Dial yn fecanyddol, bydd angen cloddio llawer o dir er mwyn cael gwared â'r holl risomau'n gyfan gwbl. Yna rhaid cael gwared arnynt mewn modd priodol neu eu gadael i'w trin yn briodol yn y fan a'r lle.

Gall gymryd llawer o amser i dorri neu dynnu'r planhigyn ymaith, a chymryd dros ddeng mlynedd i sicrhau rheolaeth ohono. Rhaid hefyd ystyried sut i'w waredu er mwyn ei atal rhag dychwelyd.

Rhaid gwaredu'r holl wastraff o Llysiau'r Dial, gan gynnwys y planhigyn a deunydd y gwreiddiau, fel gwastraff arbennig neu wastraff a reolir o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rheoliadau Dyletswydd Gofal Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1991.

Ceir cyngor manwl pellach yn y Cod Ymarfer Llysiau'r Dial a luniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

RHEOLAETH GEMEGOL

Fel arfer, bydd hi'n cymryd o leiaf dri thymor i driniaeth â chwynladdwr fod yn effeithiol. Taenu glyffosad ar y planhigyn rhwng y cyfnod blodeuo a'r cyfnod gwywo fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau, a gallai sicrhau gostyngiad o 90% ym maint y planhigyn ar ôl taenu unwaith yn unig. Mae'n bwysig nodi, ar ôl taenu chwynladdwr, y gall rhisom Llysiau'r Dial barhau i fod ynghwsg, a gall unrhyw weithgarwch sy'n torri wyneb y pridd hyrwyddo twf newydd.

Os bwriedir defnyddio chwynladdwr ar, neu wrth ymyl cwrs dŵr, bydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

DEDDFWRIAETH

O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd plannu neu achosi i unrhyw blanhigyn a restrir yn atodlen naw, rhan dau'r Ddeddf, dyfu'n wyllt. Mae Llysiau'r Dial wedi'i gynnwys ar y rhestr hon.

MANYLION CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ffôn: 01495 272670 / 07766824603
www.caerffili.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Ffôn: 01495 355531
www.blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Ffôn: 01685 725000
www.merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ffôn: 01443 400563
www.rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Ffôn: 01495 762200
www.torfaen.gov.uk

